

## TUDALEN 16

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Asedau a Phrosiectau Cyngor Dinas Bangor a gynhaliwyd yn Neuadd y Penrhyn a thrwy fideo-gynadledda Zoom ar **5 Medi 2022** am 6.30 pm.

**YN BRESENNOL:** - Cyng Medwyn Hughes (Cadeirydd), Ei Deilyngdod y Maer, Cyng. Gwynant Roberts, y Dirprwy Faer Cyng Elin Walker Jones, Cyng. Janet Abas, Cyng. Salamatu Fata, Cyng. Huw Wyn Jones, Cyng. Jac Jones, Cyng. John Wynn Jones, Cyng. Gareth Parry, Cyng. Shane Parsons, Cyng. Meic Pattison, Cyng. Nigel Pickavance, Cyng Eirian Williams Roberts, Cyng. Peter Whitby, Cyng John Wyn Williams

Swyddogion:- Martin Hanks (Cyfarwyddwr Dinesig) Howard Huws (Cyfieithydd), Sioned Jones (Cofnodion).

### **54/22 YMDDIHEURIADAU**

Cyng Dylan Fernley, Cyng Steve Bell.

### **55/22 DATGANIAD O FUDDIANT ARIANNOL NEU GYSYLLTIAD PERSONOL**

Dim.

### **56/22 CYFRANOGIAD Y CYHOEDD**

Dim.

### **57/22 DERBYN ADRODDIAD GAN Y CYFARWYDDWR DINESIG**

#### **ASEDAU**

Pier – erbyn hyn mae tŷ'r Pier Feistr wedi cael ei wagio ac mae angen gwneud gwaith ar y seiliau, dylai hwn fod wedi'i orffen mewn 4-5 wythnos.

Caeau Dargie – roedd rhywun wedi bod yn byw mewn pabell ar y cae, roedd yr unigolyn wedi mynd ond wedi gadael y babell ar ôl. Roedd llawer o nodwyddau wedi cael eu gadael o gwmpas, felly cyflogwyd cwmni i lanhau'r ardal a thorri'r gwair. Erbyn hyn mae'r cae yn edrych yn well nag yr oedd o'r blaen.

Caeau Ashley – cafwyd cwynion am feiciau a beiciau modur yn defnyddio'r caeau.

Coedydd Menai – gwaith wedi'i gwblhau. Cafodd dros 20 o goed eu cwmpo neu eu tocio. Strategaeth mannau gwyrdd i'w thrafod gyda'r Brifysgol, Adra a Chyngor Gwynedd.

Holwyd a oedd y gwaith carthffosiaeth ar y pier wedi'i orffen. Atebodd y Cyfarwyddwr Dinesig nad oedd, roedd yr oedi'n rhwystredig ond y rheswm oedd y byddai'r gwaith yn golygu cau hanner y maes parcio a fyddai'n creu problem yn y tymor ymwelwyr. Felly bydd y gwaith yn dechrau ar ddiwedd Medi am bythefnos.

#### **STAFF**

Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Dinesig at ddau aelod o'r staff a oedd wedi rhoi blynyddoedd lawer o wasanaeth i'r Cyngor ac roedd yn teimlo y dylid eu cydnabod mewn rhyw ffordd. Cyfeiriodd yr aelodau at rai Cynghorwyr hefyd a oedd wedi gwasanaethu am flynyddoedd.

**PENDERFYNWYD** rhoi hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf.

Soniwyd hefyd am Mrs Enid Griffiths, sydd bron yn 100 oed, a oedd wedi rhoi blynyddoedd o wasanaeth yn y byd addysg ym Mangor a phenderfynwyd y dylid ei chydabod hithau.

## **TUDALEN 17**

Soniodd y Cyfarwyddwr Dinesig eto am y syniad a gyflwynwyd yn y cyfarfod Cyngor cynt o gael gweithdy anffurfiol cyn bo hir.

### **58/22 DERBYN ADRODDIAD GAN IS-BWYLLGOR NANTPORTH**

Bellach mae Nantporth CIC wedi cyflwyno cynllun busnes i egluro sut maent yn bwriadu symud ymlaen. Ar hyn o bryd mae'r cynllun busnes yn cael ei werthuso gan archwilydd penodedig y Cyngor a chyfreithiwr. Bydd rhagor o wybodaeth ar gael yn y cyfarfod nesaf.

### **59/22 ARWYDDION CROESO I FANGOR**

Adroddodd y Cyfarwyddwr Dinesig y byddai'r arwydd ger yr Amlogfa oedd wedi cael ei ddifwyo gan graffiti yn costio £700.00 i'w drwsio. Adroddwyd fod pris i osod dau arwydd 'glas' Croeso i Fangor, y naill ar Ffordd Caernarfon a'r llall ar Ffordd Caergybi, yn costio tua £4,500. Yn dilyn trafodaeth ar yr arwyddion mynediad i'r Ddinas

#### **PENDERFYNWYD:**

- a) cymeradwyo talu i drwsio'r prif arwydd Croeso i Fangor
- b) cymeradwyo gosod 2 arwydd glas arall, fel y trafodwyd.

### **60/22 YSTYRIED SEFYDLU CIC PIER GARTH**

Diolch i ymdrechion Ffrindiau Pier Garth Bangor, roedd y Cyfarwyddwr Dinesig yn falch o adrodd fod mwy o bobl wedi ymweld â'r Pier dros y flwyddyn ddiwethaf a bod yr incwm wedi codi'n sylweddol. Er mwyn parhau â'r gwelliannau a gwneud y mwyaf o'r ased hwn, cynigiwyd sefydlu Cwmni Buddiant Cymunedol (CIC). Byddai CIC yn dod â manteision sylweddol i'r Cyngor a'r Pier.

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r syniad o sefydlu CIC Pier Garth yn cynnwys cynrychiolwyr o Gyngor y Ddinas a Grŵp y Ffrindiau.

### **61/22 ADFYWIO MEYSYDD CHWARAE BANGOR**

*Papur wedi'i ddosbarthu cyn y cyfarfod*

Roedd yr aelodau'n cytuno â phrif bwyntiau'r papur ac yn cytuno fod angen strategaeth. Er mwyn dyrannu'r cyllid yn deg, roedd y Cyfarwyddwr Dinesig wedi awgrymu cyflogi asesydd allanol i adolygu'r parciau a'r llefydd chwarae.

#### **PENDERFYNWYD**

- a) cymeradwyo defnyddio'r cyllid a gyllidebwyd ar gyfer un (neu ddau) barc y flwyddyn.
- b) penodi asesydd allanol i adrodd ar gyflwr parciau a llefydd chwarae'r Ddinas.
- c) cymeradwyo gwariant o hyd at £25k ar y parc sydd fwyaf ei angen.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.50pm**

CYFARWYDDWR DINESIG – Martin Hanks – CITY DIRECTOR